Kids in Museums

# Sut allai eich amgueddfa chi ennyn diddordeb plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn pynciau sensitif?

Cafodd yr adnodd hwn ei lunio i gefnogi eich gwaith o drafod ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ifanc mewn pynciau anodd, heriol neu sensitif, yn cynnwys cefnogi'r staff a lles eich ymwelwyr.

**Crëwyd hwn mewn partneriaeth â myfyriwr lleoliad gwaith o Brifysgol Caerlŷr, Lily Westcott**

## Cyflwyniad

Mae Kids in Museums yn credu ei bod hi'n bwysig cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn trafodaethau 'anodd' neu 'heriol' mewn amgueddfeydd. Mae gan amgueddfeydd rôl, fel mannau diogel, i archwilio a thrafod pynciau a allai fod yn sensitif, yn cynnwys trais, gwahaniaethu ac iechyd meddwl. Ond, weithiau mae amgueddfeydd yn osgoi'r pynciau 'anodd' hyn neu dim ond yn cyffwrdd arnynt gyda chynulleidfaoedd ifanc.

Yn ein Harolwg Maniffesto 2021 o bobl ifanc 11-25 oed, dywedodd 83% o'r ymatebwyr ei bod hi'n bwysig i amgueddfeydd fynd i'r afael â materion cymdeithasol cyfoes. Dangosodd yr arolwg y byddai pobl ifanc yn hoffi i amgueddfeydd flaenoriaethu gwaith gwrth-hiliaeth, ymdrin â'r stigma o amgylch iechyd meddwl, a dweud straeon am grwpiau sydd wedi cael eu hymyleiddio mewn hanes, fel cymunedau LHDTC+. Dim ond 12% o bobl ifanc 16-24 oed sy'n credu bod amgueddfeydd Llundain yn archwilio pynciau a straeon sy'n berthnasol iddyn nhw (adroddiad DCMS).

Yn 2019, daeth adroddiad Challenging Conversations Arts Connect i'r casgliad bod athrawon, gwirfoddolwyr a staff orielau a threftadaeth yn pryderu am y nifer a'r amrywiaeth o bynciau 'heriol a sensitif' yr oeddent yn cael eu hannog i'w trafod gyda chynulleidfaoedd ifanc heb arweiniad, hyfforddiant na chymorth. Roedd staff amgueddfeydd yn teimlo mai nhw oedd yn derbyn unrhyw adlach o ganlyniad i arddangosfeydd dadleuol ac roeddent yn pryderu am effaith arddangosiadau dadleuol ar ymwelwyr.

Mae ymchwil RCMG hefyd yn tynnu sylw at y ffaith mai un o'r prif bryderon sydd gan amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth yw sut y gallent gynnig profiadau ystyrlon, difyr a diddorol ac, ar yr un pryd, drin materion heriol gyda pharch a gonestrwydd.

Am fod yr hyn y gellir ei ystyried yn 'anodd' neu'n 'heriol' mor eang, bwriad yr adnodd hwn yw bod yn fan cychwyn. Mae'n rhoi dolenni drwyddo draw at adnoddau pellach a deunydd darllen ac astudiaethau achos. Mae'r adnodd hwn wedi ei seilio ar gyfweliadau, arolygon ac ymchwil gyda staff yr amgueddfa o Amgueddfa Iddewig Llundain, yr Amgueddfa Mudo, Amgueddfa Llundain, Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl, Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa People's History. Hoffem ddiolch i'r amgueddfeydd hyn am eu hamser.

**Beth yw pwnc anodd neu heriol?**

Does dim diffiniad sydd wedi ei gytuno'n gyffredinol o'r hyn yw pynciau anodd neu heriol. Yn yr adnodd hwn, defnyddir y termau 'anodd' neu 'heriol' fel term cyffredinol ar gyfer pynciau sy'n berthnasol i ddiffiniad Jennifer Bonnell a Roger I Simon o bynciau 'anodd' mewn arddangosfeydd. Maen nhw'n dadlau mai pynciau 'anodd' yw'r rhai sy'n achosi emosiynau negyddol, yn sbarduno teimlad cryfach o bryder, neu sy'n peri i ymwelwyr feddwl am brofiadau heb eu datrys o ofn a galar.

I ddeall yn well pa fath o bynciau yr oedd amgueddfeydd yn eu cael yn anodd neu'n heriol, aethom ati i wneud arolygon a holi amrywiaeth o staff amgueddfeydd. Roedden nhw'n sôn am y prif faterion hyn:

- Newid hinsawdd a phryder eco
- Marwolaeth, galar a cholled
- Trefedigaethu ac imperialaeth
- Hiliaeth, Mae Bywydau Du o Bwys a materion pobl frodorol
- Gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol, yn cynnwys gwrthsemitiaeth a gwahaniaethu ar sail LHDTC+
- Rhyw a rhywioldeb
- Iechyd meddwl a lles
- Rhyfel, trais a gwrthdaro
- Pynciau wedi eu gwleidyddoli, er enghraifft, yr Adain Dde Eithafol, cwmnïau olew'n noddi amgueddfeydd, mudo a boneddigeiddio.

Mae'n bwysig nodi nad yw pynciau 'anodd' mewn amgueddfeydd yn bethau newydd o bell ffordd – mae amgueddfeydd penodol am yr Holocost a safleoedd coffa wedi bod yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd mewn pynciau sensitif ers degawdau.

**Pam ddylen ni gydweithio ar bynciau heriol gyda phobl ifanc?**

Mae amrywiaeth o fanteision mewn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ifanc mewn pynciau anodd neu ddadleuol. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi dysgu, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo goddefgarwch o wahaniaethau. Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Rhaglen Allgymorth i Ysgolion yn dod â phobl ifanc o wahanol gefndiroedd at ei gilydd i fynd i ymweld â'r Museum of Free Derry, a'r Siege Museum, lle maen nhw'n cael trafodaeth gyda chynrychiolwyr o'r ddau sefydliad. Mewn erthygl gan y Museums Association, mae Julieann Campbell o'r Museum of Free Derry yn dweud y "gallwn ddefnyddio materion cynhennus o'n hanes fel cyfrwng i addysgu a chymodi", gan hyrwyddo deialog yn y mannau comunol yn ein hamgueddfeydd.

Un o brif fanteision ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ifanc mewn pynciau anodd neu heriol yw cael pobl ifanc i gymryd mwy o ran a mwy o ddiddordeb mewn amgueddfeydd . Nod y prosiect Living Museums gan The Children in Scotland yw sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl ifanc (14-21 oed) yn cael eu cynrychioli ar bob lefel o'r amgueddfa. Cynhyrchodd y Stirling Group arddangosfa o'r enw Generation Change: Young People's Participation in

Protest, a lansiwyd hon yn Awst 2021gyda'r nod o archwilio sut roedd pobl ifanc yn ymateb i faterion oedd wedi sbarduno protestiadau byd-eang, yn cynnwys newid hinsawdd, Mae Bywydau Du o Bwys, a diogelwch menywod.

Mae Panelau Ieuenctid ac Ymddiriedolwyr Ifanc yn galw ar amgueddfeydd yn gyson i ymgysylltu â phynciau heriol. Mae hyn yn rhoi llais i bobl ifanc wrth benderfynu sut mae amgueddfeydd yn adrodd straeon am wrthrychau, fel y prosiect Reframing Picton a arweinir gan bobl ifanc yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd  Roedd y prosiect hwn yn cynnwys Rhwydwaith Arweinyddiaeth Ieuenctid SSAP a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru mewn ailddehongliad o'r portread o Thomas Picton, Rhaglaw Trinidad.

**Beth yw 'priodol o ran oedran'?**

Mae'n bwysig cofio y gallai'r hyn sy'n briodol i oedran amrywio o un person i'r llall. Dywedodd staff a holwyd mewn amrywiaeth o amgueddfeydd bod gwybod beth sy'n briodol i oedran yn dod o brofiad personol a phroffesiynol, yn hytrach nag o hyfforddiant. Mae bod â gwybodaeth weithredol o bynciau dadleuol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, awgrymiadau ymarferol ar sut i ymdrin â nhw (fel y rhain gan High Speed Training), a chael sgyrsiau ag athrawon yn gallu helpu i benderfynu beth sy'n briodol i ba oedran, a'r math o iaith i'w defnyddio.

Mae llawer o sefydliadau'n cynghori nad oes unrhyw bynciau na ellir eu trin a'u trafod o gwbl – mae'n bwysig bod yn onest er mwyn datblygu ymddiriedaeth gyda'r plant. Mae gan blant wybodaeth dda yn aml iawn am yr hyn sy'n digwydd yn y newyddion. Mae siarad am eu hemosiynau a chael y cyfle i ofyn cwestiynau'n gall bod yn fwy cynhyrchiol.

Mae'r People's History Museum yn awgrymu y dylid symleiddio pynciau i bethau y gall plant eu deall yn hytrach nag anwybyddu pynciau anodd. Er enghraifft, mae'r arddangosfa More in Common Exhibition er cof am Jo Cox AS yn canolbwyntio ar y pethau cadarnhaol y mae Jo wedi eu gadael ar ei hôl oherwydd ei bywyd a'i gwaith, ac mae'n rhoi llu o adnoddau i gefnogi oedolion i gael sgyrsiau anodd gyda phlant wrth iddynt symud o gwmpas, fel y cerdyn emosiynau hwn i ymwelwyr ifanc a'r llwybr arddangosfa Addas i Deuluoedd.

Yn yr un modd, i gynulleidfaoedd ifanc, mae'r Migration Museum yn argymell newid y ffyrdd y mae'r maes astudio wedi ei gyfleu, yn hytrach na'r wybodaeth ei hun. Mae'r amgueddfa'n cymryd straeon cymhleth a heriol am fudo ac yn cyfleu'r rhain drwy weithgareddau chwareus a chyffyrddol. Mae hyn yn cynnwys marchnadfa maint plant gyda gweithgaredd rhestr siopa i ddangos heriau ac effaith entrepreneuriaeth fudol.

Mae rhai amgueddfeydd, fel Amgueddfa Iddewig Llundain, yn dewis cynnal rhai gweithdai a thrafodaethau wedi'u hwyluso gydag isafswm oedran. Mae hyn i blant Blwyddyn 5 a 6 yr ysgol gynradd (9/10 oed) i fyny fel arfer, oherwydd maen nhw wedi gweld bod gan fyfyrwyr o'r oed yma ddigon o wybodaeth a medrau i ymgysylltu â phynciau anoddach.

**Paratoi ymwelwyr**

Gwnewch yn siŵr bod adnoddau ar gael i ymwelwyr cyn iddynt fynd i mewn naill ai i'r amgueddfa neu i'r arddangosfa, sy'n tynnu sylw at themâu allweddol, yn dweud bod meysydd dan sylw a allai fod yn sensitif ac yn paratoi ymwelwyr ar gyfer y cynnwys anodd.

Gallai hyn fod ar ffurf:

- **tudalen Cwestiynau Cyffredin ar y we**
  Mae gan The International Museum of Slavery yn Lerpwl dudalen Cwestiynau Cyffredin sy'n ateb cwestiynau fel 'Beth yw eich barn am gael iawndal?', a 'Pam ydych chi'n amgueddfa ymgyrchu? Am beth ydych chi'n ymgyrchu?'.
- **adnoddau neu ganllawiau i arddangosfeydd**
  Mae'r Migration Museum yn cynhyrchu Canllawiau Arddangosfa i addysgwyr gan roi manylion y straeon yn yr amgueddfa, arweiniad ar ba gwestiynau allai godi, a sut i ymdrin â gwahanol bynciau, yn ogystal â thynnu sylw at straeon yn benodol i blant iau a darparu dolenni ar gyfer llwybrau gweithgareddau.
- **rhybuddion am gynnwys ar arwyddion neu dudalennau ar y we**
  Mae'r Thackray Museum of Medicine yn cynnwys nodyn am y cynnwys ar y dudalen am y Theatr Llawdriniaeth a Marwdy.
- **arweiniad i ddiffiniadau**
  Cyflwyno neu ddiffinio geiriau penodol neu iaith arbennig cyn mynd i mewn i'r arddangosfa neu gychwyn trafodaeth grŵp, er mwyn sicrhau bod y cyfranogwyr i gyd yn deall yr ystyron yn glir. Er enghraifft, darperir hyn gan Amgueddfa Thackray yn ei gweithdai 'Below the Belt' sy'n trafod iechyd rhywiol.

## Dangos y ffordd

Rhowch ddewis i'r ymwelwyr am y lefel o ymgysylltiad y maen nhw ei eisiau gyda phynciau anodd neu heriol. Yn ei blog ar rybuddion am gynnwys, mae Margaret Middleton yn dweud mai'r peth allweddol i'w gofio er mwyn creu rhybuddion effeithiol am gynnwys yw peidio "dweud wrth yr ymwelwyr sut y dylent benderfynu edrych ar eitem mewn arddangosfa, ond i ddisgrifio'r cynnwys a gadael i'r ymwelydd benderfynu drosto'i hun". Mae'n bwysig cofio canolbwyntio ar les y bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol gan y cynnwys – mae hyn yn cynnwys oedolion yn ogystal â phlant.

Gallai hyn gynnwys:

- nodiadau am bynciau sensitif ar adnoddau o fewn yr oriel.
- argymhellion oedran ar rai arddangosion penodol. Er enghraifft, mae gan yr oriel Holocaust Gallery yn yr Imperial War Museum yn Llundain argymhelliad oedran o 14+.
- defnyddio clustffonau ar gyfer elfennau sain / gweledol fel bod ymwelwyr yn gallu dewis a ydynt am gymryd rhan.
- cael nodwedd ryngweithiol fel bod ymwelwyr yn gallu dewis a ydynt am weld neu ddarllen cynnwys sensitif, fel yr arddangosfa The Eye as Witness yn yr Amgueddfa Iddewig yn Llundain.

- dangos lle mae modd cael cymorth neu gyngor, fel y mae'r Amgueddfa Iddewig yn Llundain yn ei wneud drwy nodi ar du allan yr orielau bod modd i ymwelwyr siarad ag aelodau'r staff sydd wedi eu hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.

## Cynnal sgyrsiau anodd

Wrth siarad ag amrywiaeth o amgueddfeydd, soniodd y staff am nifer o faterion allweddol yn ymwneud â thrafod pynciau heriol. Roedd y rhain yn cynnwys pryder am ailadrodd camsyniadau, peidio gwybod bob amser beth yw'r geiriau cywir i'w defnyddio, a pheidio bod â'r strwythur neu'r adnoddau i hwyluso trafodaeth. Gallai'r sgyrsiau hyn ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau, er enghraifft yn ystod ymweliad ysgol neu grŵp, mewn cyfarfod o'r panel ieuenctid, neu wrth gael sgwrs gyda theulu yn ystod digwyddiad.

Arweiniodd y cyfweliadau â'r staff at yr awgrymiadau hyn:

- Mewn trafodaeth grŵp, ystyriwch osod rheolau sylfaenol (e.e. dim torri ar draws) a dweud sut ymddygiad yr ydych yn ei ddisgwyl. Er enghraifft, mae'r Amgueddfa Iddewig yn Llundain yn creu 'contract' ar ddechrau sesiwn, lle mae'r cyfranogwyr yn awgrymu rheolau sylfaenol y mae pawb yn cytuno eu cadw.
- Cydnabyddwch na fydd gennych yr atebion i gyd, yn enwedig i bynciau cymhleth.
- Ceisiwch roi'r elfen ddynol i ddigwyddiadau hanesyddol, felly yn lle defnyddio ystadegau neu fapiau, ystyriwch ddefnyddio straeon personol, gwrthrychau neu ffotograffau.
- Byddwch yn agored a gonest yn eich iaith, osgowch ddefnyddio geiriau teg i osgoi dweud y geiriau cywir a dewch o hyd i'r iaith sy'n briodol ar gyfer eich cynulleidfa.
- Defnyddiwch adnoddau i hwyluso trafodaethau, er enghraifft yn Bethlem Museum of the Mind, mae'r wers Explore Bethlem yn cynnwys cwestiynau trafod sy'n cyflwyno pynciau yn ymwneud ag iechyd meddwl, ac astudiaethau achos cleifion penodol i'w defnyddio gyda'r cwestiynau hyn.
- Byddwch yn ymwybodol o'ch safle fel hyrwyddwr – peidio cymryd drosodd, a rhoi llwyfan i bobl eraill.
- Efallai y byddwch yn cael budd o ddarllen yr adnodd 'Sgyrsiau heriol – sut i gael sgwrs dda am bwnc anodd'. Mae hwn yn cynnwys model a grëwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Coombe ac A Merrie Noyse ar gyfer datblygu prosiectau sy'n archwilio pwnc heriol – 'Rhagweld – Paratoi – Cyflwyno – Gwerthuso – Adolygu'.

## Ystyried yr Ymweliad Wedyn

Gallai fod yn fuddiol cael trafodaeth a meddwl dros bethau ar ôl y gweithgaredd er mwyn 'gweithio drwy' rai o'r pynciau. Ystyriwch nid yn unig drafodaethau, ond hefyd y pethau a ddysgoch o'r profiad. Er enghraifft, yn Abaty Calke, mae ymwelwyr yn cael eu hannog i helpu i leihau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol drwy ddewis cerdyn llw pan maen nhw'n gadael.

Mae'r cardiau'n annog gweithredoedd bach o garedigrwydd fel 'Ysgrifennu llythyr', 'Rhoi rhodd o fwyd' neu 'Galw ar gymydog'.

Gallai'r gweithgareddau ar ôl ymweliad hefyd gynnwys:

- cofnodi hanes y gweithgareddau
- trafodaethau mewn grwpiau bach
- creu darn ymateb creadigol
- cael egwyl i ginio neu fyrbryd
- cardiau cwestiwn dienw.

## Cynnal digwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau

Gallwch ymdrin â phynciau anodd gyda theuluoedd mewn ffordd sy'n ddiddorol a hygyrch i ymwelwyr iau.

Mae Museum of London Docklands yn cynnal digwyddiadau i deuluoedd yn rheolaidd yn eu horiel London, Sugar and Slavery Gallery – digwyddiadau fel Sugar Coated Histories, lle mae gwahoddiad i deuluoedd edrych yn greadigol ar gysylltiad Llundain â chaethwasiaeth drawsatlantig drwy gynhyrchu gweithiau celf.

Yn ei harddangosfa Remembering the Kindertransport: 80 Years On exhibition darparodd Amgueddfa Iddewig Llundain weithgareddau addas i deuluoedd oedd yn ymdrin â themâu mudo a cholled. Roedd y rhain yn cynnwys pobi bara a gweithdai crefft fel addurno bocs cadw atgofion, a thaflen waith am siwtces ffoadur, oedd yn ystyried pa bethau ffisegol ac anghyffwrdd y byddai pobl efallai'n eu cymryd gyda nhw i le newydd.

Mae gan Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol flychau benthyg, yn cynnwys Bocs Benthyg Caethwasiaeth drwy Wrthrychau, sy'n cynnwys copïau o arteffactau, deunyddiau o'r cyfnod fel lluniau ac adroddiadau swyddogol, a deunydd cefnogol i athrawon.

Mae'r Migration Museum yn cynnal cystadleuaeth Moving Stories: Lewisham i bobl ifanc 9-18 oed i lunio arddangosyn sy'n archwilio mudo, a bydd yr enillwyr yn gweithio gyda phobl broffesiynol greadigol i greu arddangosiad ffisegol mewn ymateb i'r arddangosyn hwnnw.

## Cefnogi lles y staff

Gall fod yn anodd ymdopi â chredoau sydd gennych chi'n bersonol tra byddwch yn gynrychiolydd amgueddfa. Mae'n bwysig gwybod beth yw eich ffiniau personol chi a'r pynciau a allai achosi i chi deimlo'n annifyr. Efallai y bydd aelodau'r staff yn cael rhai pynciau'n fwy heriol nag eraill ac efallai y byddent angen mwy o gefnogaeth gan eu sefydliad. Mae dolenni at gyfleoedd hyfforddi ar waelod y dudalen hon.

Gall sefydliadau gefnogi eu staff hefyd drwy:

- roi amser digonol iddynt i fyfyrio ar sesiwn neu sgwrs heriol a dod drosto.
- gael lle diogel i encilio iddo er mwyn prosesu unrhyw deimladau ac emosiynau.
- cefnogaeth ymysg y tîm – y gallu a'r lle i drafod heriau neu gwestiynau'n agored gyda chydweithwyr.
- cael cyfle i ymarfer cyn cynnal sgwrs anodd.

Dywedodd staff yr amgueddfa bod ymdrin â rhai sgyrsiau anodd yn fwy heriol fyth oherwydd sarhad ar-lein. Mae gan The Space becyn cymorth sy'n trafod sut i baratoi ac ymateb i gamdriniaeth ar-lein ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn sefydliadau'r celfyddydau.

## Cefnogi lles ymwelwyr

Efallai y bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael rhai pynciau penodol yn arbennig o heriol yn ystod eu hymweliad ac y byddent angen cymorth ychwanegol.

Efallai mai'r ateb fyddai mannau tawel i eistedd a meddwl yn yr amgueddfa, sy'n agored i bawb, fel yr Ystafell Dawel yn yr Imperial War Museum yn Llundain.

Mae The People's History Museum yn argymell technegau tawelu teimladau yn eu canllaw Exhibition Guide for Group Leaders, ac mae ganddi arwyddion i ddangos lle mae eu mannau tawel yn yr amgueddfa.

Mae'r Amgueddfa Iddewig yn Llundain yn dilyn yr egwyddor 'Diogel wrth Gyrraedd, Diogel wrth Ymadael', gan sicrhau nad yw ymwelwyr yn cael sioc annisgwyl yn ystod eu hymweliad, ac nid ydynt yn defnyddio enghreifftiau / lluniau ar bynciau sensitif dim ond er mwyn achosi 'sioc'. Mae'r egwyddor hon yn cynnwys sefydlu'r cyd-destun, y cefndir a gwybodaeth allweddol cyn cynnal trafodaeth anodd, a chynnig y cyfle i fyfyrio wedyn.

Mae'r amgueddfa'n cynnig cymorth ar ôl yr ymweliad i blant a phobl ifanc, er enghraifft yr adnodd Understanding Grief and Memory, sy'n trafod sut i siarad am yr emosiynau hyn a helpu i adnabod rhywun sy'n galaru.

Gallai fod yn fuddiol hefyd i roi dolenni at grwpiau cymorth mewn orielau, ar adnoddau, ac yn ystod gweithdai.

## Syniadau da

- Peidiwch â cheisio osgoi unrhyw bwnc penodol – cofiwch deilwra'r wybodaeth i'w darparu i wahanol ystodau oedran.
- Byddwch yn onest a pheidiwch â defnyddio geiriau teg i osgoi'r gair cywir.
- Ystyriwch beth mae'r plentyn neu'r person ifanc ei angen – trafodaeth efallai, ffordd o brosesu eu hemosiynau neu enwi'r emosiynau hynny, dweud wrth oedolyn am rywbeth sy'n eu pryderu.
- Does dim model 'un maint i bawb'; bydd gwahanol bobl yn ymateb ac yn ymgysylltu â phynciau anodd yn wahanol.

## Dysgu gan eraill

Ystyriwch unrhyw unigolion, grwpiau neu gymunedau y tu allan i'r amgueddfa sydd â gwybodaeth fwy arbenigol neu brofiad byw, a gweithiwch ar y cyd.

- Mae Ignite Yorkshire yn gweithio gyda chydweithfa o bobl yn eu harddegau sy'n ymgynghori â sefydliadau treftadaeth ac yn cynnig hyfforddiant a dysgu am 'yr hyn y mae pobl yn eu harddegau eu heisiau mewn gwirionedd' ar safleoedd treftadaeth.
- Mae The Space to Come yn llunio prosiectau unigol i feithrin cyfnewidiadau ystyrlon ar draws gwahanol safleoedd diwylliannol.
- Mae Fast Familiar yn cynnal The Acquisitions Panel, sef perfformiad rhyngweithiol sy'n archwilio achosion o hanes trefedigaethol drwy wrthrychau'r amgueddfa.
- Ystyriwch rwydweithiau posibl a allai gefnogi gwaith yr amgueddfa. Er enghraifft, mae'r Migration Museum yn cynnal y Migration Network, sef rhwydwaith rhannu gwybodaeth sy'n dod â sefydliadau at ei gilydd o sector treftadaeth y DU, y rhwydwaith cefnogi GLAM Cares, ac mae Amgueddfa Iddewig Llundain yn rhan o'r Gymdeithas Amgueddfeydd Iddewig Ewropeaidd.
- Mae The Mix yn wasanaeth cefnogi blaenllaw i bobl ifanc (dan 25 oed), gyda rhagor o ddolenni ac adnoddau ar gyfer cymorth penodol.

## Hyfforddiant

- Mae gan Tonic Theatre gyrsiau hyfforddi am Ragfarn Ddiarwybod, Anabledd a Chynhwysiant, a Hil a Chynghreirio.
- Gweithdai Arferion a Hysbyswyd gan Drawma gan CALM.
- Hyfforddiant neu adnoddau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA) (yn benodol i bobl ifanc).

## Darllen Pellach

- Adroddiad Challenging Conversations Report (2019) – Arts Connect
- Mae'r adnoddau Guidance debate resources – gan The Association for Citizenship Teaching yn rhoi arweiniad ynghylch dadleuon am bynciau dadleuol yn yr Ystafell Ddosbarth Drafod.
- Llinyn trafod am gyngor ynglŷn ag arwyddion i roi rhybuddion am gynnwys i deuluoedd (yn cynnwys enghreifftiau o destun).
- Sut all eich amgueddfa gefnogi plant a phobl ifanc i ddeall ac ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol? – Kids in Museums
- Sut all eich amgueddfa weithio ochr yn ochr â phlant, pobl ifanc a theuluoedd i ddatblygu arferion gwrth-hiliol? – Kids in Museums

## Adnoddau amgueddfa

- Adnoddau dysgu ar-lein – Anne Frank House

- Talking About Race – Amgueddfa Genedlaethol Hanes a Diwylliant Americanwyr Affricanaidd.
- Talking to Children about Terrorism – Adnodd y 9/11 Memorial Museum
- Cyfres 'How to' – Royal Museums Greenwich.
  Mae hon yn cynnwys 'Sut i siarad â phlant am hil a hiliaeth', 'Sut i rymuso plant – gan osgoi stereoteipio'r rhywiau yn ystod plentyndod', a 'Sut i siarad â phlant am yr argyfwng hinsawdd'.